**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1376
Ein cyf/Our ref JH-/00877/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Government.Committee.Business@llyw.cymru

25 Hydref 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1376 sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r gorau i daliadau peilot incwm sylfaenol i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Roedd y cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn cynnig cyfle i dros 600 o bobl ifanc a oedd yn troi'n 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 dderbyn £1600 bob mis (cyn treth) am ddwy flynedd i'w cefnogi wrth iddynt symud ymlaen i fywyd oedolyn. Roedd hyn yn cynnwys rhai unigolion a oedd yn blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches ar adeg eu cofrestru. Mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ac sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi bod yn gymwys ar gyfer y cynllun peilot incwm sylfaenol ers y cychwyn, fel rhai sy'n gadael gofal categori tri.

Yn unol â'n nod o fod yn Genedl Noddfa, rydym am sicrhau bod plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn cael eu cefnogi i ailadeiladu eu bywydau. Mae galluogi pobl ifanc cymwys i gymryd rhan yn y cynllun peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn cefnogi'r uchelgais hwn.

Y rheswm dros gynnig gweithio gyda'r garfan hon yn hytrach nag unrhyw grwpiau eraill sydd fel arfer yn wynebu tlodi neu unrhyw fathau eraill o anfantais oedd er mwyn deall yr heriau unigryw y mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn eu hwynebu. Roeddem am weld a allai ymestyn y cyfnod y darperir cymorth iddynt gael effaith gadarnhaol wrth iddynt symud ymlaen i fywyd oedolyn.

Mae'r taliad incwm sylfaenol misol o £1600 yn cael ei drethu yn y tarddle (cyn i'r person ifanc ei dderbyn) fel incwm nas enillir. Felly, mae pob cyfranogwr yn y cynllun peilot yn derbyn £1280 y mis, yn amodol ar unrhyw newidiadau yng nghyfradd sylfaenol treth incwm.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae ein data cofrestru ynghylch y rhai fu'n blant yn ceisio lloches ar eu pen eu hunain yn adlewyrchu eu statws lloches wrth iddynt gofrestru, a gwyddom fod nifer o'r rhai fu'n blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches sy'n cymryd rhan yn y peilot wedi cael caniatâd i aros ers ymuno â'r cynllun peilot.



**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**